Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

1. Cyflwyniad i'r Memorandwm

2. Cyflwyniad i Waith y Ddau Fudiad

2.1 Mentrau Iaith Cymru

2.2 Mudiad Meithrin

3. Cydweithio

3.1 Diffinio gwaith

3.2 Cyfarfodydd a Chyd-Gynllunio

3.3 Rhannu Gwybodaeth

3.4 Cyd-hyrwyddo a Marchnata

3.5 Mynediad at Weithgareddau a Rhwydweithiau

1. Cyflwyniad i'r Memorandwm

Yn natganiad polisi *Iaith Fyw: Iaith Byw – Bwrw Mlaen* a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014 mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen i sicrhau bod cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr holl bartneriaid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Diben y ddogfen hon yw rhoi trosolwg o'r ffyrdd y mae Mentrau Iaith Cymru a Mudiad Meithrin yn bwriadu cydweithio, gan nodi'r ffyrdd y mae'r ddau fudiad yn bwriadu cefnogi gwaith ei gilydd er mwyn cyrraedd amcanion a nodau cyffredin er budd y Gymraeg.

Mae'r ddau fudiad yn cydnabod pwysigrwydd a photensial cydweithio strategol, yn enwedig yn y maes o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ac o gaffael y Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.

Egwyddorion Craidd

Mae'r egwyddorion canlynol wrth wraidd ein perthynas cydweithio:

- Bod ein gweithgareddau yn cael eu cynllunio mewn modd cydlynol
- Ein bod ni'n cydnabod cryfderau ein gilydd a pharchu ffiniau gweithredu
- Bod yr union natur o gydweithio yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd yn dibynnu ar adnoddau, cyfleoedd a blaenoriaethau.

2. Cyflwyniad i Waith y Ddau Fudiad

2.1 Mentrau Iaith Cymru

Mae Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn fudiad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith lleol. Mae'r Mentrau Iaith yn rhwydwaith o 23 o fudiadau sy'n unigryw i Gymru ac sydd yn anelu at gael effaith hir dymor ar y Gymraeg drwy hyrwyddo a datblygu ar lefel gymunedol, gwaith sydd yn cynnwys elfennau hyrwyddo sylfaenol holl bwysig a datblygu cymunedol uchelgeisiol. Rhyngddynt mae'r Mentrau Iaith yn cyflogi dros 300 o aelodau staff ac yn cydweithio gyda dros 1,300 o wirfoddolwyr i gynnal dros 16,000 o weithgareddau er budd dros 160,000 o gyfranogwyr bob blwyddyn.

Cefndir y Mentrau Iaith
Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991. Erbyn hyn mae 23 Menter Iaith leol ledled Cymru yn gwasanaethu pob rhan o'r wlad.

Y Mentrau Iaith yw'r ffordd mae cymunedau lleol Cymru yn gweithredu er budd y Gymraeg. Maent wedi bod yn fodel hynod lwyddiannus hyd y blynyddoedd ac yn cael eu cydnabod fel ffordd effeithiol o ddatblygu cymunedol sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol. Mae pob Menter Iaith yn unigryw felly mae eu safbwynt a'u hymateb i sefyllfaoedd yn amrywio, ac mae hyn yn gryfder i'w groesawu. Mae'r gwaith a wneir gan bob Menter yn adlewyrchu natur cymdeithasol-ieithyddol yr ardal y gweithredir ynddi.

Mae'r Mentrau Iaith yn cael eu rheoli gan Bwyllgorau Rheoli gwirfoddol, sef unigolion o'r gymuned leol ac maent yn gweithio mewn partneriaeth gydag amryw o sefydliadau eraill.

Cefndir Mentrau Iaith Cymru
Fe sefydlwyd MIC yn 1998 pan oedd y Mentrau lleol yn gweld bod angen cydweithio yn agosach, rhannu syniadau ac arfer da. Y Mentrau Iaith sydd yn berchen ar MIC ac yn llywio ein hamcanion a'n gweithgareddau.

Ein prif swyddogaeth yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith wrth iddynt hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ond mae gweithgareddau Mentrau Iaith Cymru yn ymestyn y tu hwnt i hyn. Rydym hefyd yn gweithredu yn strategol i sicrhau dylanwad ar bolisïau cyhoeddus a phenderfyniadau sydd yn cael effaith ar y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

Yn llorweddol i'n gwaith mae'r egwyddor o rannu gwybodaeth, profiadau, syniadau ac adnoddau rhwng y Mentrau Iaith a phartneriaid eraill ar draws Cymru.

2.2 Mudiad Meithrin

Mudiad gwirfoddol sy'n arbenigo ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yw Mudiad Meithrin. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Mudiad yn darparu cefnogaeth corff *ymbarél i* gylchoedd meithrin, cylchoedd Ti a Fi, darparwyr gofal cofleidiol a meithrinfeydd Cymraeg. Y Mudiad yw'r darparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mwyaf yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Sefydlwyd y Mudiad ym 1971, gydag oddeutu 50 cylch. Erbyn hyn, wedi tyfu'n aruthrol, mae tua 550 o gylchoedd meithrin a 500 o gylchoedd Ti a Fi yn perthyn i'r Mudiad. Mae'r ddau gategori yma yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i oddeutu 22,000 o blant bob wythnos. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref. Er mwyn cyflawni hyn, mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2,500 ychwanegol yn gweithio yn y cylchoedd eu hunain a miloedd yn gwirfoddoli ar bwyllgorau. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o Swyddogion Datblygu proffesiynol sy'n eu cynghori ar faterion yn ymwneud â hybu ymarfer da, hyfforddiant staff a chyswllt ag Awdurdodau Lleol. Yn ychwanegol, mae gan y Mudiad sawl is-gwmni megis 'Mabon a Mabli' (siop adnoddau Cymraeg a dwyieithog), 'Meithrinfeydd Cymru', 'Cynlluniau Cyfeirio' a 'Cham wrth Gam' sef ei adain hyfforddiant sy'n cymhwyso 200 o ymarferwyr gofal plant y flwyddyn hyd at Lefel 3.

3. Cydweithio

Mae Mentrau Iaith Cymru a Mudiad Meithrin yn ymrwymo i gydweithio er budd y Gymraeg ar draws Cymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gynnal cyfarfodydd er mwyn annog cyd-gynllunio
- Rannu gwybodaeth
- Gydweithio i gyd-hyrwyddo a marchnata gwaith ein gilydd
- Gynnig mynediad at weithgareddau a rhwydweithiau ein gilydd

Oherwydd natur amrywiol ac eang gweithgareddau'r ddau fudiad bydd yr union natur o gydweithio yn amrywio o ardal i ardal yn dibynnu ar adnoddau a blaenoriaethau.

3.1 Diffinio Gwaith

Er mwyn cydnabod arbenigedd gwaith y ddau fudiad ac osgoi dyblygu gwaith cynigir fod Mudiad Meithrin yn canolbwyntio ar ofal plant, addysg blynyddoedd cynnar a gwaith cysylltiol

yn yr ystod oedran 0-7, tra bod y Mentrau Iaith yn gwasanaethu'r gymuned gyfan, gan weithredu i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bo angen mewn ymateb i anghenion lleol. Serch hynny gan gofio'r angen am hyblygrwydd a chan fod gwaith y Mentrau yn cwmpasu ystod mor eang o feysydd ac oedrannau ar draws Cymru, mae'n bosibl bydd y gwaith hwnnw yn cynnwys gwaith yn y sectorau blynyddoedd cynnar, gofal a chwarae mewn rhai ardaloedd Gyda chydweithrediad a chyfathrebu priodol rhwng y ddau fudiad yn lleol rydym yn gweld hyn yn gryfder i'w groesawu bydd yn sicrhau bod y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwasanaethu yn y ffordd orau. Nid yw'r naill fudiad neu'r llall yn bwriadu cystadlu am grantiau, tendrau neu cyfleon gwaith, ac ymdrechiwn i gyd-gynllunio, cydweithio a gweithredu er budd y Gymraeg yn ein cymunedau.

3.2 Cyfarfodydd a Chyd-gynllunio

Cydnabyddwn bwysigrwydd cynnal deialog cenedlaethol a lleol parhaol er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod datblygiadau allweddol mewn meysydd perthnasol, cynllunio'n strategol a chwilio am gyfleoedd i gydweithio. Bydd y ddau fudiad yn:

- Cynnal cyfarfodydd cydweithio cenedlaethol rhwng cynrychiolwyr o Mentrau Iaith Cymru a Mudiad Meithrin, gan anelu at gynnal dau gyfarfod y flwyddyn. Bwriedir cael eitemau sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd, gan gynnwys diweddariad cyffredinol gan y ddau fudiad; cyfleoedd i gydweithio; anawsterau; marchnata; adolygu'r memorandwm.
- Cynnig cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd strategol ei gilydd er mwyn trafod prosiectau neu faterion penodol (e.e. cynnig slot penodol mewn cyfarfodydd cenedlaethol neu ranbarthol) os yw'n amserol ac yn ymarferol.
- Trefnu cyfarfodydd eraill arbennig yn ôl yr angen, yn enwedig wrth i'r naill fudiad neu'r llall gynllunio gwaith a phrosiectau newydd mewn ardaloedd penodol.

3.3 Rhannu Gwybodaeth

Rhwng cyfarfodydd bydd y ddau fudiad yn rhannu gwybodaeth a negeseuon perthnasol trwy e-bost, gan rannu negeseuon ag aelodau staff a / neu wirfoddolwyr trwy e-bost os ydynt yn berthnasol.

Mae'r ddau fudiad hefyd yn gwahodd ei gilydd i gyfrannu gwybodaeth berthnasol ar gyfer eu cylchlythyron, eu gwefannau a'u rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae hefyd potensial i'r ddau fudiad ymgymryd â gwaith i ddylanwadu ar bolisi er budd y Gymraeg, e.e. trwy gydweithio wrth ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â meysydd gwaith y ddau fudiad (yn achlysurol a chan gydweithio gyda phartneriaid eraill).

3.4 Cyd-hyrwyddo a Marchnata

Mae'r ddau fudiad yn ymgymryd â gweithgareddau marchnata a hyrwyddo amrywiol, gan dargedu grwpiau a chynulleidfaoedd penodol. Cydnabyddir bod rhai gweithgareddau yn targedu'r un grwpiau a chynulleidfaoedd. Mae potensial i'r ddau fudiad gefnogi ac ychwanegu gwerth at ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata ei gilydd trwy:

- Rannu gwybodaeth am, a hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata ei gilydd (e.e. drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol)
- Drafod cyfleoedd i farchnata ar y cyd (e.e. cynllunio a chynnal ymgyrchoedd penodol mewn partneriaeth, yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol)

- Rannu gwybodaeth am gyfleoedd posibiliadau i gydweithio a thrafod marchnata a hyrwyddo eu gwaith ar y cyd yn yr Eisteddfodau a digwyddiadau cyhoeddus eraill, lle mae'n addas ac yn ymarferol.

Y pwyntiau uchod i'w trafod mewn cyfarfodydd cydweithio a / neu trwy ohebiaeth y tu allan i'r cyfarfodydd hynny.

3.5 Mynediad at Weithgareddau a Rhwydweithiau

Ar lefel genedlaethol bydd y ddau fudiad yn cydweithio i gynnig mynediad i'w gilydd i ddigwyddiadau a rhwydweithiau os yn berthnasol ac yn ymarferol, e.e. digwyddiadau, hyfforddiant, cyfarfodydd strategol.

Ar lefel leol bydd y ddau fudiad yn annog cydweithio gan swyddogion lleol i gefnogi gweithgareddau a digwyddiadau ei gilydd, gan gynnwys:

- Presenoldeb mewn digwyddiadau ein gilydd os yn ymarferol
- Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau ar y cyd
- Rhannu gwybodaeth gyda'n gilydd wrth gynllunio gweithgareddau i sicrhau bod cynllunio'n cael ei wneud mewn modd cydlynol.
- Annog, os yw'n bosib ac yn ymarferol, bod swyddogion Mudiad Meithrin yn mynychu cyfarfodydd Fforymau Sirol a gydlynir gan y Mentrau Iaith a phartneriaid eraill.

Cyfnod ac Adolygu

Mae'r Memorandwm hwn yn dechrau ar 1 Ebrill 2015 a chaiff ei adolygu yn flynyddol wedi hynny, neu yn ôl yr angen.